
# GOGLEDD CYMRU



# Adroddiad Blynyddol 2019 – 2020

# Rhagarweiniad

Rydym yn falch o gyflwyno Adroddiad Blynyddol TACCA 2019/20, ar gyfer Trefniadau Amlasiantaethol Amddiffyn y Cyhoedd Bwrdd Rheoli Strategol Gogledd Cymru.

Mae 2020 wedi bod yn flwyddyn heriol yn dilyn pandemig byd-eang Covid-19. Mae wedi effeithio ar lawer o sefydliadau ac o ganlyniad wedi arwain at newidiadau yn y ffordd mae gwasanaethau'n cael eu cynnal. Fodd bynnag, yn ystod yr amseroedd digynsail hyn, ni effeithiwyd ar effeithiolrwydd TACCA. Mae hyn oherwydd ymrwymiad bob sefydliad perthnasol i sicrhau mai diogelu'r cyhoedd yw ein prif flaenoriaeth er mwyn cadw ein cymunedau'n ddiogel.

Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu'r gwaith y mae'r Bwrdd Rheoli Strategol wedi'i wneud i wella effeithiolrwydd TACCA yn ystod y flwyddyn wrth reoli troseddwyr treisgar a rhywiol i leihau ail-droseddu ac amddiffyn y cyhoedd. Mae hefyd yn cynnig cyfle i ni ddangos ein hatebolrwydd i'r cymunedau lleol yr ydym yn eu gwasanaethu.

Mae amddiffyn y cyhoedd yn hanfodol i Awdurdodau Cyfrifol TACCA (Yr Heddlu, Carchardai a'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol) ac mae popeth a wnawn yn canolbwyntio ar sicrhau diogelwch parhaus ein cymunedau. Ategir hyn gan gyfraniad gwerthfawr yr asiantaethau sydd a ddyletswydd i gydweithio ac asiantaethau eraill. Mae troseddau rhywiol a treisgar yn ffurfio canran fach o'r troseddau yr ymdriniwyd â hwy gan y pedwar Llu ledled Cymru. Fodd bynnag, mae'r effaith dinistriol y mae'r digwyddiadau hyn yn ei gael ar y dioddefwyr a chymunedau yn enfawr. Drwy'r adroddiad hwn gelli'r sicrhau aelodau'r cyhoedd bod gwaith yn parhau 24 awr y dydd, saith diwrnod yr wythnos i amddiffyn yr cymunedau yr ydym yn byw ynddynt.

Nid yw byth yn bosib i ddileu'r risg a achosi'r gan droseddwyr difrifol yn llwyr. Fodd bynnag, yr hyn y gellir ei ddisgwyl yw bod pob cam rhesymol wedi'i gymryd i leihau'r risg o niwed difrifol i'r cyhoedd gan droseddwyr a hyrwyddo adsefydlu. Felly, mae'r adroddiad hwn nid yn unig yn cynnwys gwybodaeth ystadegol am y rhai sy'n cael eu rheoli o dan TACCA yn ystod y flwyddyn ariannol diwethaf ond, mae hefyd yn darparu gwybodaeth am sut mae trefniadau hyn y gweithio'n ymarferol yn lleol.

Mae cyflawniadau'r Bwrdd Rheoli Strategol yn adlewyrchu'r cyfraniadau sylweddol a waned fan yr holl asiantaethau sy'n ymwneud â TACCA ledled Gogledd Cymru, a hoffem ddiolch i'n holl bartneriaid sydd wedi cyfrannu at y trefniadau hyn dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae ehangder y profiad ar arbenigedd wrth rheoli achosion TACCA yn eithriadol ac nid oes amheuaeth o'r ymrwymiad y mae asiantaethau'n ei ddangos i gyrraedd safonau uchel. Hyderwn hefyd fod yr adroddiad hwn yn dangos ymrwymiad a phroffesiynoldeb ein staff gyda'u gwaith heriol a chymhleth sydd yn aml ddim yn cael sylw'r cyhoedd. Mae eu hymroddiad yn allweddol i sicrhau bod ein cymunedau'n parhau i fod yn ddiogel.

Wrth argymell yr adroddiad hwn i chi, gobeithiwn y bydd yn rhoi mewnwelediad gwerthfawr i'n gwaith ac yn cynnig sicrwydd bod diogelu'r cyhoedd ac anghenion dioddefwyr yn parhau i fod y flaenoriaeth uchaf i ni.



Nicola Davies
Cyfarwyddwr Rhanbarthol Cymru
Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol

# Beth yw TACCA?

## Cefndir TACCA

Cyfres o drefniadau yw TACCA (Trefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Amddiffyn y Cyhoedd) i reoli'r risg a gyflwynir gan y troseddwyr rhyw a threisgar gwaethaf (troseddwyr cymwys am TACCA) o dan ddarpariaethau rhannau 325 i 327B Deddf Cyfiawnder Troseddol 2003.

Daw'r trefniadau â gwasanaethau'r Heddlu, y Gwasanaeth Prawf a'r Carchardai ym mhob un o'r 42 Ardal yng Nghymru a Lloegr at eu gilydd yn un Awdurdod Cyfrifol TACCA.

Mae gan nifer o asiantaethau eraill Ddyletswydd i Gydweithredu (DTC) â'r Awdurdod Cyfrifol. Mae'r rhain yn cynnwys y Gwasanaethau Cymdeithasol, Gwasanaethau Iechyd, Timau Troseddwyr Ifanc, Y Ganolfan Byd Gwaith a'r Awdurdodau Addysg a Thai Lleol.

Mae'n ofynnol i'r Awdurdod Cyfrifol benodi dau Gynghorydd Lleyg i eistedd ar Fwrdd Rheoli Strategol (SMB) pob ardal TACCA ynghyd ag uwch-gynrychiolwyr o bob un o'r Awdurdodau Cyfrifol a'r asiantaethau DTC.

Mae'r Cynghorwyr Lleyg yn aelodau o'r cyhoedd a benodir gan y Gweinidog, sydd heb unrhyw gysylltiad â'r busnes o reoli troseddwyr TACCA ac sy'n gweithredu fel arsyllwyr annibynnol ond gwybodus; gallant ofyn cwestiynau na fyddai staff proffesiynol yn gweithio yn y maes efallai'n meddwl eu gofyn. Maent hefyd yn cyfrannu eu dealltwriaeth a'u persbectif ar y gymuned leol (lle mae'n rhaid iddynt fod yn byw a bod â chysylltiadau cryf) i'r Bwrdd Rheoli Strategol.

## Sut y mae TACCA yn gweithio

Mae troseddwyr cymwys TACCA yn cael eu pennu ac mae gwybodaeth amdanynt yn cael ei rhannu rhwng asiantaethau fel sail i asesiadau risg a chynlluniau rheoli risg y bobl sy'n eu rheoli neu eu goruchwylio.

Dyna gyn belled ag y mae TACCA yn mynd yn y rhan fwyaf o achosion. Ond, mewn rhai achosion, mae angen rheolaeth amlasiantaethol strwythuredig. Yn yr achosion hyn cynhelir cyfarfodydd TACCA rheolaidd lle daw ymarferwyr o'r asiantaethau perthnasol ynghyd.

Mae tri chategori o droseddwyr cymwys am TACCA:

- **Categori 1** – troseddwyr rhyw cofrestredig;
- **Categori 2** – troseddwyr treisgar yn bennaf sydd wedi eu dedfrydu i 12 mis neu fwy yn y carchar neu i orchymyn ysbyty; a
- **Categori 3** – troseddwyr nad ydynt yn gymwys o dan gategori 1 na 2 ond sy'n cyflwyno risg o niwed difrifol ar y pryd.

Mae tair lefel o reolaeth i sicrhau bod adnoddau'n cael eu targedu lle mae fwyaf angen eu targedu; fel arfer yn ymwneud â risg uwch o niwed difrifol.

- **Lefel 1** yw rheolaeth asiantaethol arferol (h.y. rheolaeth gan yr asiantaeth arweiniol heb unrhyw gyfarfodydd TACCA ffurfiol);
- **Lefel 2** yw lle mae angen i fwy nag un asiantaeth gyfrannu'n weithredol i reoli'r troseddwr.
- **Lefel 3** yw lle mae'r cynlluniau rheoli risg yn gofyn presenoldeb ac ymrwymiad adnoddau ar lefel uwch.

Cefnogir TACCA gan ViSOR. System Technoleg Gwybodaeth genedlaethol yw hon i helpu i reoli troseddwyr sy'n cyflwyno risg ddifrifol o niwed i'r cyhoedd. Mae defnyddio ViSOR yn ei gwneud yn haws rhannu gwybodaeth ar draws sefydliadau a throsglwyddo gwybodaeth allweddol yn ddiogel pan fydd troseddwyr risg uchel yn symud, gan wella unrhyw fesurau amddiffyn y cyhoedd. Mae ViSOR yn golygu bod staff yr Heddlu, y Gwasanaeth Prawf a'r Carchardai'n gallu gweithio ar yr un system TG am y tro cyntaf, gan wella ansawdd a phrydlondeb asesiadau risg ac ymyriadau i atal troseddu.

Cyhoeddir pob adroddiad TACCA o Gymru a Lloegr ar-lein yn: [www.gov.uk](http://www.gov.uk)

# Ystadegau TACCA

| Troseddwyr cymwys TACCA ar 31 Mawrth 2020 | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Categori 1: Troseddwyr rhyw cofrestredig | Categori 2: Troseddwyr treisgar | Categori 3: Troseddwyr Peryglus eraill | Cyfanswm |
| Lefel 1 | 979 | 166 | - | 1145 |
| Lefel 2 | 24 | 42 | 13 | 79 |
| Lefel 3 | 1 | 2 | 0 | 3 |
| Cyfanswm | 1004 | 210 | 13 | 1227 |

| Troseddwyr cymwys am TACCA yn Lefelau 2 a 3 yn ôl categori (cyfanswm blynyddol) | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Categori 1: Troseddwyr rhyw cofrestredig | Categori 2: Troseddwyr treisgar | Categori 3: Troseddwyr peryglus eraill | Cyfanswm |
| Lefel 2 | 22 | 26 | 11 | 59 |
| Lefel 3 | 1 | 2 | 0 | 3 |
| Cyfanswm | 23 | 28 | 11 | 62 |

| | |
|---|---|
| **Troseddwyr rhyw cofrestredig (RSO) a gafodd rybudd neu euogfarn am dorri gofynion hysbysu** | 29 |

| | |
|---|---|
| **Troseddwyr RSO lle penderfynwyd diddymu eu gofyniad hysbysu gydol oes drwy wneud cais** | 15 |

| Gorchmynion cyfyngu ar gyfer troseddwyr Categori 1 | |
|---|---|
| **Gorchmynion Atal Niwed Rhywiol (SHPO), Gorchmynion SHPO gyda chyfyngiad ar fynd dramor a Gorchmynion Hysbysu a osodir gan y llysoedd** | |
| SHPO | 96 |
| SHPO gyda chyfyngiad ar fynd dramor | 0 |
| Gorchmynion Hysbysu (NO) | 0 |

| | |
|---|---|
| **Nifer y bobl a ddaeth yn destun gofynion hysbysu'n dilyn torri Gorchymyn Risg Rhywiol (SRO)** | 0 |

| Troseddwyr Lefel 2 a 3 wedi eu dychwelyd i'r carchar | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | **Categori 1: Troseddwyr rhyw cofrestredig** | **Categori 2: Troseddwyr treisgar** | **Categori 3: Troseddwr peryglus eraill** | **Cyfanswm** |
| **Torri trwydded** | | | | |
| Lefel 2 | 14 | 20 | 7 | 41 |
| Lefel 3 | 0 | 1 | 0 | 1 |
| Cyfanswm | 14 | 21 | 7 | 42 |
| **Torri SOPO** | | | | |
| Lefel 2 | 1 | - | - | 1 |
| Lefel 3 | 0 | - | - | 0 |
| Cyfanswm | 1 | - | - | 1 |

| | |
|---|---|
| **Cyfanswm y Troseddwyr Rhyw Cofrestredig am bob 100,000 o bobl** | 161 |

Cyfrifwyd y ffigur hwn gan ddefnyddio Amcangyfrifon Poblogaeth Canol 2019: Un flwyddyn oed a rhyw ar gyfer Ardaloedd Heddlu yng Nghymru a Lloegr; amcangyfrif o'r boblogaeth breswyl, a gyhoeddir gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol, ac eithrio rhai o dan ddeg oed.

# Sylwebaeth esboniadol ar y tablau ystadegol

## Cefndir TACCA

Mae cyfanswm y troseddwyr sy'n gymwys i TACCA, yn ôl categori, yn adlewyrchu'r darlun ar 31 Mawrth 2020 (h.y. cipolwg a roddir ganddynt). Mae gweddill y data'n ymwneud â'r cyfnod rhwng 1af Ebrill 2019 a 31ain Mawrth 2020.

**(a) Troseddwyr Cymwys TACCA** – mae nifer o droseddwyr a ddiffinnir o dan y gyfraith fel rhai sy'n gymwys am reolaeth TACCA, oherwydd eu bod wedi cyflawni troseddau rhyw a threisgar penodol neu oherwydd eu bod ar y pryd yn cyflwyno risg o niwed difrifol, er bod y rhan fwyaf yn cael eu rheoli o dan drefniadau asiantaethol arferol (Lefel 1) yn hytrach na thrwy gyfarfodydd TACCA. Mae'r ffigurau hyn yn cynnwys troseddwyr cymwys TACCA sy'n byw yn y gymuned yn unig. Nid ydynt yn cynnwys rhai sydd yn y carchar neu dan glo o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl.

**(b) Troseddwyr Rhyw Cofrestredig (RSO)** – sef y rhai sydd angen hysbysu'r heddlu o'u henw, cyfeiriad a manylion personol eraill a rhoi gwybod iddynt am unrhyw newidiadau sy'n digwydd wedyn (sef y "gofyniad hysbysu"). Mae'r troseddwyr hyn yn cael eu hasesu a'u rheoli gan yr heddlu. Gallent hefyd gael eu rheoli gan y gwasanaeth prawf neu'r gwasanaeth iechyd os ydynt yn destun trwydded neu orchymyn ysbyty. Mae methu â chydymffurfio â'r gofyniad hysbysu'n drosedd ac all arwain at uchafswm cosb o bum mlynedd yn y carchar.

**(c) Troseddwyr Peryglus** – mae'r categori hwn yn cynnwys troseddwyr treisgar a ddedfrydwyd i garchar neu i'w cadw dan glo am 12 mis neu fwy, neu i'w cadw o dan orchymyn ysbyty. Mae hefyd yn cynnwys nifer fach o droseddwyr rhyw nad ydynt yn gymwys i'w cofrestru. Mae'r troseddwyr hynn yn cael eu hasesu a'u rheoli gan y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol, y Tim Troseddu Ieuenctid neu'r Gwasanaethau Iechyd Meddwl.

**(d) Troseddwyr Peryglus Eraill** – troseddwyr nad ydynt yn gymwys o dan y ddau gategori arall TACCA, ond sydd ar hyn o bryd yn peri risg o niwed difrifol sy'n gofyn am rheolaeth trwy gyfarfodydd TACCA. Mae'r troseddwyr hyn yn cael eu hasesu a'u rheoli gan ba bynnag asiantaeth sydd â'r prif gyfrifoldeb amdanynt.

**(e) Torri trwydded** – bydd troseddwyr sy'n cael eu rhyddhau i'r gymuned yn dilyn cyfnod yn y carchar yn cael eu rhoi ar drwydded gydag amodau (o dan oruchwyliaeth y gwasanaeth prawf). Os torrir yr amodau hyn, cymerir camau tor-trwydded a gall y troseddwr gael eu galw'n ôl i'r carchar.

**(f) Gorchymyn Atal Niwed Rhywiol (SHPO) (gan gynnwys unrhyw gyfyngiad ychwanegol ar deithio tramor).** Mae Gorchmynion Atal Niwed Rhywiol (SHPO) a Gorchmynion SHPO interim wedi disodli'r hen Orchmynion Atal Troseddau Rhywiol. Eu pwrpas yw amddiffyn y cyhoedd rhag troseddwyr a gafwyd yn euog o drosedd rywiol neu dreisgar, ac sy'n cyflwyno risg o niwed rhywiol i'r cyhoedd, drwy osod cyfyngiadau ar eu hymddygiad. Mae'r gorchymyn yn gofyn bod y troseddwr yn rhoi eu manylion i'r heddlu (yn unol â Rhan 2 Deddf 2003) drwy gydol cyfnod y gorchymyn.

Rhaid i'r llys fod yn fodlon bod angen y gorchymyn i amddiffyn y cyhoedd (neu unrhyw aelodau penodol o'r cyhoedd) yn y DU, neu blant neu oedolion agored i niwed (neu unrhyw blant neu oedolion agored i niwed penodol) dramor, rhag niwed rhywiol gan y troseddwr. Yn achos gorchymyn a wneir ar gais annibynnol gan brif swyddog neu'r Asiantaeth Droseddu Genedlaethol (NCA), rhaid i'r prif swyddog / NCA allu dangos bod y troseddwr wedi ymddwyn yn y fath fodd ers ei gael yn euog fel bod angen y gorchymyn yn angenrheidiol.

Y cyfnod lleiaf ar gyfer gorchymyn llawn yw pum mlynedd. Yr isafswm oedran yw deg, sef oedran cyfrifoldeb troseddol, ond lle mae'r diffynnydd o dan 18 oed dylid ond ystyried cais am orchymyn mewn amgylchiadau eithriadol.

**(g) Gorchymyn Hysbysu** – lle mae angen i droseddwyr rhyw a gafwyd yn euog dramor gofrestru â'r heddlu, er mwyn amddiffyn y cyhoedd yn y DU rhag y risg y maent yn eu peri. Gall yr heddlu wneud cais i'r llys am orchymyn hysbysu ar gyfer troseddwyr sydd eisoes yn y DU neu sy'n bwriadu dod i'r DU.

### (h) Gorchymyn Risg Rhywiol (gan gynnwys unrhyw gyfyngiad teithio tramor ychwanegol).

Mae’r Gorchymyn Risg Rhywiol (SRO) wedi disodli’r Gorchymyn Risg o Niwed Rhywiol (RoSHO) a gellir ei wneud ar gyfer unigolyn sydd euogfarn am drosedd rywiol neu dreisgar (nac unrhyw drosedd arall) ond sy'n cyflwyno risg o niwed rhywiol.

Gellir gwneud y SRO yn y llys ynadon ar gais yr heddlu neu’r NCA lle mae unigolyn wedi cyflawni gweithred o natur rywiol ac mae’r llys yn fodlon bod yr unigolyn yn cyflwyno risg o niwed i’r cyhoedd yn y DU neu i blant neu oedolion bregus dramor.

Gall SRO wahardd unigolyn rhag gwneud unrhyw beth a ddisgrifir ynddo, gan gynnwys teithio tramor. Rhaid i unrhyw waharddiad fod yn angenrheidiol i amddiffyn y cyhoedd yn y DU rhag niwed rhywiol, neu yng nghyswllt a theithio tramor, amddiffyn plant neu oedolion bregus rhag niwed rhywiol.

Mae’n ofynnol i unigolyn sy’n destun SRO hysbysu’r heddlu o’u henw a’u cyfeiriad cartref cyn pen tridiau ar ôl i’r gorchymyn gael ei wneud a hefyd hysbysu unrhyw newidiadau i’r wybodaeth yma o fewn tridiau.

Gall SRO bara am o leiaf dwy flynedd ac nid oes ganddo uchafswm, ac eithrio unrhyw gyfyngiadau teithio tramor sydd, os yw’n berthnasol yn para am uchafswm o bum mlynedd (ond gellir ei adnewyddu).

Mae’r safon prawf troseddol yn parhau i fod yn berthnasol. Gall yr unigolyn o dan sylw apelio yn erbyn gwneud y gorchymyn ac mae’r heddlu neu’r unigolyn dan sylw yn gallu gwneud cais i amrywio, adnewyddu neu ollwng y gorchymyn.

Mae torri SRO yn drosedd y gellir ei chosbi gan uchafswm o bum mlynedd o garchar. Pan fydd unigolyn yn torri ei SRO, bydd yn dod yn destyn gofynion hysbysu llawn.

Mae unigolion sy’n destun SRO yn cael eu cofnodi ar ViSOR fel Person Peryglus Posib (PDP)

### (i) Diddymu gofynion hysbysu gydol oes drwy wneud cais.

Mae her gyfreithiol yn 2010 ac ymateb deddfwriaethol cyfatebol yn golygu bod trefniadau bellach yn eu lle sy’n caniatáu i droseddwyr rhyw cymwys wneud cais am adolygiad o’u gofynion hysbysu. Nid yw pobl yn dod oddi ar y gofrestr yn awtomatig. Gall troseddwyr cymwys gyflwyno cais i’r heddlu i adolygu eu gofynion hysbysu amhenodol. Mae’r heddlu’n adolygu’r cais ac yn penderfynu a ddylid dirymu’r gofynion hysbysu. Gwneir y penderfyniad hwn ar reng yr Uwcharolygydd. Bydd y rhai sy’n parhau i beri risg sylweddol yn aros ar y gofrestr am oes, os bydd angen.

Dim ond ar ôl iddynt fod yn destun i ofynion hysbysu amhenodol am gyfnod o 15 mlynedd i oedolion ac 8 mlynedd i droseddwyr ifanc y bydd unigolion yn dod yn gymwys i ofyn am adolygiad. Daeth hyn i rym ar 1 Medi 2012 ar gyfer troseddwyr sy’n oedolion.

# Tudalen Leol

## Tagio GPS

Tagio GPS yw'r defnydd o dagia ffêr wedi'u galluogi a lloeren i fonitro rhywun, naill ai at ddibenion monitro cydymffurfiad ag amodau neu at y pwrpas o fonitro lleoliad unigolyn. Mae'r tag yn monitro lleoliad yr unigolyn 24 awr y dydd.

Gellir eu defnyddio i:-

1. Monitro cydymffurfiad â parthau gwahardd o gyfeiriad penodol neu o ardal fawr a fellir ei deilwra i fod ar waith 24 awr y dydd neu ar adegau penodol e.e amseroedd cychwyn a gorffen ysgol neu yn seiliedig ar batrwm gwaith y dioddefwr.
2. Monitro presenoldeb mewn gweithgaredd neu apwyntiad.
3. Monitro lleoliad yr unigolyn yn gyffredinol sy'n eu galluogi i wybod yn union ble mae'r unigolyn wedi bod, pryd ac am ba hyd.
4. Monitor cydymffurfiad â chyrffyw, ochr yn ochr ag unrhyw un or gofynion uchod. Os yw unigolyn yn destun cyrffyw sy'n cael ei fonitro'n electronig yn unig, ni fyddai'r ddyfais hon yn cael ei ddefnyddio.

Gellir monitro unigolion sydd yn desun i amrywiaeth o Orchmynion Llys a thrwyddedau a gelli'r defnyddio'r tagiau i

- Leihau'r risg o aildroseddu
- Leihau'r risg o ddianc
- Rheoli'r risg i ddioddefwyr, gan gynnwys achosion trais ddomestig.

Gelli'r defnyddio monitor lleoliad i gefnogi:

- **Cosb:** Creu dedfryd gymunedol mwy cadarn a heriol drwy gynyddu dwyster y monitor, drwy o bosib gyfuno monitro lleoliad a chyrffyw.
- **Ataliad:** Gall gynyddu'r tebygolrwydd o ganfod pe bai unigolyn wedi bod mewn parth gwahardd, wedi troseddu eto neu monitro lleoliad (trwy fonitro llwybr unwaith y bydd ar gael) atal troseddu pellach, yn enwedig oherwydd gallai monitro gysylltu'r unigolyn â throseddau ychwanegol neu cymdeithion. Os bydd toriad, bydd monitor lleoliad yn darparu tystiolaeth gadarn i gefnogi gorfodaeth.
- **Adsefydlu:** Gall ddarparu esgus i beidio a chysylltu a chyfoedion sy'n ymwneud â gweithgareddau troseddol neu ymweld a lleoedd sy'n gysylltiedig a gweithgareddau troseddol. Gall darfu ar ymddygiad troseddol a darparu lle i waith gael ei gwblhau i fynd ir afal ag rhesymau dros troseddu.
- **Rheoli risg:** Gall monitro lleoliad ddarparu tystiolaeth o risg yn cynyddu, neu risg newydd sy'n gysylltiedig a niwed neu aildroseddu. Mae hefyd yn caniatáu i ffactorau risg, megis cyswllt a bobl bregus neu bobl wrthgymdeithasol neu y dynfa yn ôl i ffordd o fyw troseddol gael eu monitro a'u herio.

Derbynnir hysbysiad or cyfyngiadau yn cael eu torri yn gyflym sy'n caniatáu i gamau gorfodaeth priodol eu cymryd yn brydlon. (GPC & EMS Awst 2020)

Rwyf wedi rheoli unigolyn oedd yn destun i'r parth gwahardd ond oedd wedi cael caniatâd i'w dorri er mwyn cadw i apwyntiadau swyddfa gyda mi yn unig. Ar bob achlysur cefais fy hysbysu'n brydlon. Petai hyn wedi bod yn doriad gwirioneddol byddai camau gorfodaeth cyflym wedi bod yn bosib.

Rwyf hefyd wedi rheoli unigolyn oedd yn destun monitor llwybr ac roedd yn bosib gofyn am gadarnhad o'i leoliad ar adegau penodol o'r dydd i wirio gwybodaeth a ddarparwyd ganddo. Yn yr achos hwn, roedd y gallu i gael y wybodaeth yn gyflym yn ddefnyddiol gan fod pryderon ynghylch a'i gydymffurfiad a'i leoliad yn gyffredinol. Gyda'r wybodaeth ar gael gan y cwmni tagio GPS, aethpwyd i'r afael yn gyflym ar pryderon a chymerwyd camau perthnasol.

Paula Hughes
Swyddog Prawf

## Llwybr Anhwylder Personoliaeth Troseddwyr (Offender Personality Disorder Pathway (OPS))

Mae Llwybr Anhwylder Personoliaeth Troseddwyr Cymru (OPDP) yn darparu gwasanaeth i'r Rheolwr Troseddwyr trwy eu cefnogi i ddatblygu dealltwriaeth fwy gwybodus yn seicolegol o gyflwyniad y defnyddiwr gwasanaeth. Fe'i gyfeirir ato fel fformiwleiddiad. Yn y tîm mae nifer o Swyddogion Prawf arbenigol, Seicolegwyr Clinigol, Seicolegwyr Fforensig a staff cymorth.

<u>Sgrinio</u>

Cwblhei'r y broses sgrinio gan y Rheolwr Troseddwyr. Os cânt eu hasesu fel risg uchel os yn ddyn, neu risg ganolig as yn fenyw yn ogystal â nifer o ddangosyddion anhwylder personoliaeth yna bydd yr unigolyn yn sgrinio i mewn ac yn cael cynnig apwyntiad gyda'n Seicolegwr Clinigol a/neu Fforensig. Gellir edrych ar yr unigolion hynny sydd wedi eu sgrinio allan fesul achos er mwyn eu cynnwys – mae hyn fel arfer ar gyfer nodweddion personoliaeth anarferol sydd ddim yn cael eu nodi gan ddangosyddion safonol. Yn yr un modd, gellir edrych

ar yr unigolion hynny sydd wedi eu sgrinio mewn ond sydd ag anawsterau sylfaenol sy'n gysylltiedig â salwch meddwl difrifol neu anabledd dysgu, sy'n gofyn am wasanaethau prif ffrwd Iechyd Meddwl neu Anabledd Dysgu.

Mae cryn dibyn o waith wedi'i gwblhau dros y flwyddyn i sicrhau bod staff yn ymwybodol o'r broses sgrinio. Mae hyn wedi cynnwys digwyddiadau hyfforddi, digwyddiadau briffio ac hefyd cefnogaeth y Swyddogion Prawf arbenigol ym mhob swyddfa. Mae'r digwyddiadau briffio hyn wedi'u cynnal mewn cyfarfodydd tîm i atgoffa staff y Gwasanaeth Prawf.

Fformwleiddiadau

Dylid cwblhau fformwleiddiadau ar yr unigolion hynny sydd â anghenion cymhleth lle mae sefydlu llwybr a trefniadau rheoli yn gofyn am ddealltwriaeth soffistigedig o'r unigolyn. Yr amcan yw darparu gwybodaeth fydd o gymorth i Staff y Gwasanaeth Prawf i ddeall ymddygiad, cyflwyniad a phroblemau yr unigolyn. Mae'n defnyddio fframwaith i ddatblygu rhagdybiaeth, neu ddamcaniaeth am y ffactorau cychwyn, cymhelliant a chynnal ymddygiad a gweithrediad y troseddwr. Dylai'r broses o lunio fformiwla'r unigolyn ddarparu rhagdybiaeth a rhagfynegiad ynghylch sut y bydd yr unigolyn yn ymateb i gynlluniau dedfrydu, triniaeth a cynlluniau rheoli. Yn ogystal a darparu rhesymeg dros ddilyniant y driniaeth yn ei gyfanwaith. Nid yw'r model damcaniaethol y dylid ei ddefnyddio wedi'i ragnodi, ond mae'n hanfodol bod y darparwr gwasanaeth yn tynnu ar un or dulliau damcaniaethol cyfredol sy'n seiliedig ar dystiolaeth.

Bydd fformwleiddiadau ysgrifenedig yn mynd i'r afal â'r pump swyddogaeth ganlynol:

a) Sefydlu'r broblem glinigol a'r anghenion troseddol;
b) Datblygu naratif o fywyd y troseddwr sy'n integreiddio datblygiad personoliaeth ac ymddygiad troseddol;
c) Darganfod ffactorau rheswm, cymhelliant a chynnal sy'n sail i'r patrwm ymddygiad problemus.
d) Darganfod ymddygiad (patrwm) a ddymuni'r newydd, a'r amodau sy'n angenrheidiol i (a) gynyddu cymhelliant a defnydd i ymddygiadau newydd, a (b) atal neu/a rheoli ymddygiadau sy'n peri problem.
e) Cefnogi y datblygiad o gynlluniau dedfryd a chynlluniau eraill, ymgynghori a gwasanaethau allweddol eraill ac mewn cydweithrediad â'r troseddwr lle bynnag fo hyn yn bosib.
f) Dros amser, adolygu'r achos ac adolygu'r fformwleiddiadau or oes angen.

Gwaith amlasintaethol

Elfen allweddol o'r Llwybr OPD yw cynnal cysylltiadau â gwasanaethau allweddol. Wrth ddatblygu'r fformwleiddiadau, mae'n bwysig cael y pobl iawn o fewn yr ymgynghoriadau. Mae hyn wedi golygu ein bod wedi cynnal cysylltiadau gyda Timau Rhaglenni, Staff Safle Cymeradwy, Staff PIPE, Tîm Seicoleg Fforensig ar "Together Women's Project", ac rydym yn parhau i allu ddarparu fformwleiddiadau trylwyr a hawdd eu defnyddio er mwyn ir holl asiantaethau allweddol allu gweithio gyda nhw. Unwaith y bydd y fformwleiddiadau wedi'i ddatblygu yna gellir rhannu hyn gyda asiantaethau TACCA.

Amser i Feddwl

Yn ystod y flwyddyn heriol mae'r Llwybr OPD wedi camu mewn a darparu sesiynau ar gyfer staff y Gwasanaeth Prawf o dan y teitl "Amser i Feddwl". Mae hyn wedi galluogi i staff gael amser i ffwrdd i fyfyrio ar yr anawsterau maent yn eu wynebu a chael lle i drafod hyn. Cafwyd adborth cadarnhaol iawn gan staff sydd wedi ei ddefnyddio ac er fod y sesiynau hyn yn newydd mae trafodaethau parhaus ynghylch a sut y gellir cynnal hyn wrth symud ymlaen.

Samantha Williams
Swyddog Prawf.

## TACCA Heddlu Gogledd Cymru

Dechreuais fy rôl newydd fel Ditectif Arolygydd TACCA ym Mis Mehefin 2020. Rwy'n gyfrifol am gynrychioli Heddlu Gogledd Cymru ar draws ardal yr heddlu yng nghyfarfodydd amrywiol TACCA lefel 2. Rwyf hefyd yn rheoli'r 3 thîm MOSOVO sy'n monitro troseddwyr rhyw cofrestredig yn ein cymunedau, sydd â chroesiad eang ag agenda TACCA.

Cyn yr haf diwethaf, roedd Arolygydd gwahanol yn mynychu'r cyfarfodydd ar draws 3 ardal y Llu. Credaf fod cael un pwynt cyswllt ar gyfer materion cysylltiedig a TACCA yn ein galluogi i ganolbwyntio ein hymdrechion a'n hadnoddau a rheoli'r unigolion hynny sy'n cyflwyno'r risg fwyaf i'n cymunedau. Mae'n darparu cysondeb i ni sydd yn ei dro yn cefnogi ein gweledigaeth o wneud Gogledd Cymru y lle mwyaf diogel yn y DU.

Wrth benderfynu pa achosion a ddylai eistedd ar lefel aml-asiantaeth, mae'r Cydlynydd TACCA Lowri A. Owen a minnau ar y cyd yn sgrinio'r holl achosion TACCA ledled Gogledd Cymru. Mae hyn yn rhoi cyfle i ni ystyried yn union yr hyn fyddai rheolaeth amlasintaethol yn ei gynnig i gynllun rheoli risg yr unigolyn, yn ogystal ac edrych ar sut mae'r mathau hyn o achosion yn cael eu rheoli mewn rhannau eraill or Llu. Rydym yn mynychu cyfarfodydd TACCA yn rheolaidd ledled Cymru ar DU wrth i droseddwyr risg uchel symud o amgylch y wlad. Mae deall sut mae'r ardaloedd eraill hyn yn rheoli eu hachosion yn dechrau hyrwyddo dysgu ac arfer da.

Mae rheoli troseddwyr o fewn y trefniadau amlasiantaethol amddiffyn y cyhoedd yn rhan hanfodol o'n gwaith. Mae heriau a chymhlethdod cynyddol y gwaith hwn wedi cael eu cydnabod ac mae Heddlu Gogledd Cymru wedi cynyddu nifer y staff sy'n ymroddedig i reoli'r troseddwyr hyn.

Er bod COVID-19 wedi gwneud hi'n fwy heriol i ddosbarthu ein gwasanaethau, mae wedi dod ag asiantaethau yn agosach at eu gilydd. Rydym wedi cyflwyno prosesau tasgio dyddiol gyda'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol ar draws y Llu sydd yn ein galluogi i flaenoriaethu ein hymateb i'r unigolion hynny sy'n achosi'r pryder mwyaf.

Mae'r cynnydd mewn troseddau rhyw difrifol a cham-drin domestig sy'n cael eu hadrodd ir Heddlu yn siapio agenda TACCA ar hyn o bryd. Mae'r asiantaethau sy'n eistedd o amgylch y bwrdd (neu ym myd rhithiol "Microsoft Teams" ar hyn o bryd) yn darparu unigolion allweddol sydd ar gallu i wneud ein harferion gweithio ar y cyd yn llawer mwy effeithiol a rhoi cynlluniau rheoli risg effeithiol ar waith. Mae'n faes gwaith heriol ond boddhaol.

Ditectif Arolygydd Tim Green
Heddlu Gogledd Cymru

## Gair o Ddiolch

Mae pandemig byd-eang COVID-19 wedi arwain i'r flwyddyn 2020 fod yn un llawn heriau. I'r Tîm TACCA, daeth â'r her o sut i barhau i gynnal cyfarfodydd TACCA sydd yn draddodiadol wedi cael eu cynnal mewn ystafelloedd cyfarfod gyda phawb yn eistedd o amgylch y bwrdd, mewn modd oedd yn ymarferol, oedd yn creu cyn lleied o drafferth a phosib ac yn bwysicaf oll mewn modd oedd yn cadw cyfrinachedd. Yn dilyn gweithredu'r Model Cyflenwi Eithriadol a'r angen i bellhau'n gymdeithasol, cynhaliwyd cyfarfodydd i ddechrau drwy cynhadledd ffôn, gyda'r Cadeirydd TACCA, Gweinyddwr TACCA a'r Ditectif Arolygydd TACCA yn eistedd mewn un ystafell, yn cynnal pellter cymdeithasol a gyda'r holl aelodau panel eraill yn deialu i mewn. Cynhaliwyd pob cyfarfod TACCA gan ddefnyddio'r dull hwn am ychydig fisoedd cyn i ni symud ymlaen i ddefnyddio "Microsoft Teams" sy'n gweithio'n dda hyd yma, gyda aelodau'r panel yn ymuno trwy fideo neu trwy defnyddio'r platfform ffôn.

Hoffem ddiolch i'r Awdurdodau Cyfrifol a'r Asiantaethau hynny sydd a dyletswydd i gydweithio am fynd uwchlaw a thu hwnt yn eu cefnogaeth i'n cynorthwyo i barhau â gwaith TACCA yng Ngogledd Cymru, sydd wedi galluogi i TACCA barhau i weithredu fel yr arfer trwy gydol yr argyfwng presennol. Nid oes lleihad o unrhyw fath wedi bod yn eu hymrwymiad a'u presenoldeb ac rydym wir yn gwerthfawrogi'r ymrwymiad parhaus i waith TACCA yng Ngogledd Cymru.

Lowri A. Owen
Cydlynydd TACCA

**Cyhoeddir holl adroddiadau TACCA o Gymru a Lloegr ar-lein yn:**

**www.gov.uk**

ACC Sacha Hachett
Prif Gwnstabl Cynorthwyol
Heddlu Gogledd Cymru
Pencadlys yr Heddlu, Glan Y Don
Bae Colwyn
LL29 8AW

Andy Jones
Prif Weithredwr Cynorthwyol
Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol
Ffordd Conwy
Bae Colwyn
LL29 7AA

Lowri A.Owen
Cydlynydd TACCA
Uned Diogelu'r Cyhoedd
SSU Llanelwy
Llanelwy
LL17 0HW

Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol
National Probation Service

HM PRISON SERVICE
GWASANAETH CARCHAR EM

HEDDLU GOGLEDD CYMRU
Gogledd Cymru diogelach
NORTH WALES POLICE
A safer North Wales